Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yn

**Ninas a Sir Abertawe**
**Canolfan Ddinesig**
**Heol Ystumllwynarth**
**Abertawe**
**SA1 3SN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dinas a Sir Abertawe

Mae cyfanswm poblogaeth Dinas a Sir Abertawe tua 250,000. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 77 o ysgolion cynradd, gan gynnwys 10 sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol, mae 14 o ysgolion uwchradd, y mae dwy o'r rhain yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae dwy ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion. Dechreuodd y prif weithredwr dros dro yn ei swydd ym mis Mai 2022, a phenodwyd y Cyfarwyddwr Addysg ym mis Chwefror 2021. Mae arweinydd y cyngor wedi bod yn ei rôl er mis Medi 2014 a dechreuodd y prif ddeilydd portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg yn ei swydd ym mis Mai 2021. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r awdurdod lleol yn 2013. Mae Dinas a Sir Abertawe yn un o dri awdurdod lleol a ffurfiodd bartneriaeth newydd, sef 'Partneriaeth', wedi i gonsortiwm ERW ddod i ben. Yn 2021-2022, roedd cyllideb addysg net y Cyngor tua £190,000,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2021-2022 oedd £5,236, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Abertawe wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 22% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20%
- Mae 11% o ddisgyblion sy'n 5 oed ac yn hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16%
- Mae 16% o ddisgyblion sy'n 5 oed ac yn hŷn o leiafrifoedd ethnig, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 12%
- Mae gan 24% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA), sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 20% (sylwer bod y data hwn o fis Ionawr 2021, cyn gwneud newidiadau i'r modd y caiff darpariaeth AAA ei dyrannu)
- Roedd 117 o blant i bob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2021, sy'n golygu bod yr awdurdod yn y 12fed safle uchaf ymhlith yr awdurdodau lleol eraill

## Crynodeb

Mae gan gyfarwyddiaeth addysg Abertawe ddyhead uchelgeisiol ar gyfer ei holl blant a phobl ifanc. Ar y cyd â'r prif weithredwr, yr arweinydd, yr aelod cabinet ar gyfer addysg ac aelodau etholedig, mae swyddogion addysg wedi ymrwymo'n glir i ddarparu'r addysg orau posibl ar gyfer pob plentyn. Mae swyddogion yn y gyfarwyddiaeth addysg yn gweithio ar y cyd ac yn gynhyrchiol gyda gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol a sefydliadau allanol ar sawl lefel.

Mae'r cyfarwyddwr a'i swyddogion yn cynnal perthnasoedd adeiladol ac agored gyda phenaethiaid a rhanddeiliaid. Maent yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant cryf ac effeithiol o hunanwella ymhlith ysgolion Abertawe. Ceir cydweithio effeithiol ar sawl lefel, sy'n golygu bod gan ysgolion hanes cryf iawn o wella dros amser. Y deilliannau arolygu ar gyfer ysgolion Abertawe oedd y cryfaf yng Nghymru yn y tair blynedd yn arwain at bandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020. At ei gilydd, roedd perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 rhwng 2017 a 2019 uwchlaw neu ymhell uwchlaw safonau mewn ysgolion tebyg. Roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol yn gyson yn y tair blynedd cyn y pandemig.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth allweddol i lesiant a lles dysgwyr. Mae uwch swyddogion ac ysgolion prif ffrwd wedi ymrwymo'n gryf i gynorthwyo disgyblion bregus a'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio. Ceir amrywiaeth eang o gymorth ac ymyraethau ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiadol ac emosiynol i sicrhau bod dysgwyr yn llwyddo ac yn aros mewn addysg. Mae hon yn nodwedd nodedig. Yn yr arolygiadau ysgolion rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020, roedd proffil Abertawe ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu yn eithriadol o gryf. Yn ychwanegol, mae nifer y disgyblion sy'n symud ymlaen i Flwyddyn 11 ac yn aros yn eu hysgol tan ddiwedd y flwyddyn academaidd yn gyson uwch na chyfartaleddau cenedlaethol. Mae hyn yn gryfder arbennig.

Mae gan y gyfarwyddiaeth addysg ddiwylliant cryf o hunanfyfyrio a hunan werthuso. Mae arweinwyr yn cynnal adolygiadau rheolaidd a thryloyw o agweddau ar waith y gwasanaeth, ac yn llunio cynlluniau gwella cyflym a manwl gywir. Mae prosesau monitro a sicrhau ansawdd sefydledig ar waith. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu ei gynnig addysg cyfrwng Cymraeg yn raddol. Ceir cynlluniau dyheadol o fewn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 yr awdurdod lleol a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ddatblygu'r agwedd hon ymhellach, ond mae angen sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl blant allu cael addysg cyfrwng Cymraeg ledled y sir. Mae'r gyfarwyddiaeth addysg yn cydnabod yr angen i weithio gyda phartneriaid perthnasol i adolygu a datblygu ei darpariaeth ôl-16 a chasglu barn rhanddeiliaid fel rhan o'r broses gynllunio.

## Argymhellion

A1 Adolygu darpariaeth ôl-16 i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob un o’r dysgwyr

A2 Cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob oedran ac ardal o’r awdurdod lleol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi’r adroddiad arolygu, dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i’r afael â’r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy’r broses arolygu. Dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi’r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi dwy astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â’i gymorth cryf ar gyfer gwella ysgolion ac ansawdd y cymorth mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio. Bydd yr astudiaethau achos yn cael eu paratoi er mwyn eu rhannu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Ni allwn roi gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn oherwydd effaith pandemig COVID-19, a achosodd i arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill gael eu hatal er mis Mawrth 2020. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data am ddeilliannau y gellir eu cymharu dros gyfnod wrth i'r pandemig achosi newidiadau i'r ffordd yr oedd cymwysterau'n cael eu dyfarnu, ac yn effeithio ar y rhan fwyaf o ddata arall yr ydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16. Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom 26 o ysgolion cynradd, wyth ysgol uwchradd yn ogystag ag uned cyfeirio disgyblion yr awdurdod lleol. Barnom fod safonau'n rhagorol mewn tair ysgol gynradd, ac yn dda mewn 23 ysgol gynradd. O'r wyth ysgol uwchradd, barnom fod safonau'n rhagorol mewn dwy ysgol, yn dda mewn pum ysgol ac yn ddigonol mewn un ysgol. Barnom fod safonau'n dda yn yr uned cyfeirio disgyblion. Y barnau hyn ar gyfer safonau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a'r uned cyfeirio disgyblion yw'r cryfaf o blith unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Gosodwyd yr ysgol uwchradd y barnwyd bod ganddi safonau digonol yn y categori adolygu gan Estyn, a thynnwyd yr ysgol o'r categori hwn yn ddiweddarach ym mis Rhagfyr 2021. Ni roddwyd unrhyw un o'r 34 ysgol na'r uned cyfeirio disgyblion mewn categori gweithgarwch dilynol statudol.

Cyflwynwyd fframwaith newydd i arolygu ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ym mis Chwefror 2022. Nid ydym yn darparu barnau crynodol ar gyfer meysydd arolygu unigol mwyach. Gall arolygwyr roi ysgol yn y categori adolygu gan Estyn o hyd os ydynt yn barnu y byddai'r ysgol yn elwa ar gyfnod amser byr i wella ychydig o agweddau ar eu gwaith. Mae'r ddau gategori statudol gweithgarwch dilynol yn aros yr un fath. Dyma ble mae angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar ysgolion. Os yw arolygwyr wedi nodi arfer hynod gryf neu effeithiol, gwahoddir yr ysgol i lunio astudiaeth achos ysgrifenedig i'w rhannu gyda darparwyr eraill ar wefan Estyn. Yn y cyfnod o fis Chwefror 2022 hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd, arolygom wyth ysgol gynradd. Ni roddwyd yr un o'r ysgolion hyn mewn unrhyw fath o gategori gweithgarwch dilynol. Yn ychwanegol, gofynnom am o leiaf un astudiaeth achos arfer effeithiol gan bump o'r ysgolion hyn.

Roedd perffromiad cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn y tair blynedd cyn y pandemig yn uchel. Roedd deilliannau ar gyfer disgyblion yn ysgolion uwchradd Abertawe yn gryf ac uwchlaw neu ymhell uwchlaw'r rhai mewn ysgolion tebyg, ar y cyfan. Roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol yn gyson yn y tair blynedd cyn y pandemig.

Yn yr arolygiadau ysgolion rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020, roedd cyfran yr ysgolion a gafodd farn da neu ragorol am les ac agweddau at ddysgu yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cafodd deg ysgol gynradd a phedair ysgol uwchradd farn rhagorol ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu. Un ysgol yn unig o bob un o'r 35 ysgol a'r UCD

gafodd farn digonol ar gyfer lles, a barnwyd bod pob un o'r darparwyr eraill yn dda ar gyfer y maes arolygu hwn. Mae hon yn nodwedd nodedig.

Rhwng 2017 a 2019, roedd presenoldeb yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd Abertawe uwchlaw neu ymhell uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol. Dros amser, mae cyfraddau gwaharddiadau ysgol yn cyd-fynd â chyfartaleddau cenedlaethol, ar y cyfan. Mae nifer y disgyblion sy'n symud ymlaen i Flwyddyn 11 yn eu hysgol ac yn aros mewn addysg amser llawn tan ddiwedd y flwyddyn academaidd yn gyson uwch na chyfartaleddau cenedlaethol. Mae hyn yn gryfder arbennig.

Mae diwylliant o wrando a rhoi'r plentyn wrth wraidd pob penderfyniad yn allweddol i waith ymgysylltu'r awdurdod gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod lleol wedi ymgorffori strategaethau effeithiol i wella iechyd meddwl ac emosiynol a lles plant a phobl ifanc. Mae'r nifer gyffredinol sy'n manteisio ar wasanaeth cwnsela'r awdurdod a'r effaith a gaiff hyn ar les dysgwyr yn gryfder nodedig. Hefyd, ceir diwylliant cryf o weithio amlasiantaethol o fewn y gyfarwyddiaeth addysg. Er enghraifft, mae datblygu'r 'Hybiau Cymorth Cynnar' i deuluoedd, gyda ffocws clir ar atal ac ymyrraeth gynnar, wedi cael effaith gadarnhaol ar les plant a phobl ifanc.

Mae casglu adborth gan blant a phobl ifanc wedi helpu'r awdurdod lleol i gryfhau gweithgareddau llais y disgybl ac ailffurfio'i fforwm ieuenctid. Mae chwe grŵp fforwm disgyblion gwahanol, sy'n darparu cyfleoedd i grwpiau amrywiol o ddisgyblion gymryd rhan yn gyfrifol mewn gwneud penderfyniadau o fewn yr awdurdod. Er enghraifft, mae ganddynt rôl allweddol mewn recriwtio staff, gan gynnwys penodi'r Cyfarwyddwr Addysg.

At ei gilydd, caiff plant a phobl ifanc oedran ysgol gyfleoedd gwerthfawr i ffurfio polisïau ac arferion yn yr awdurdod lleol. Maent yn arfer eu hawliau democrataidd a'u cyfrifoldebau trwy gyfrannu eu hamser i geisio dylanwadu ar benderfyniadau a rhannu barn am faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Datblygwyd fideo ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ac yn Saesneg gan bobl ifanc i hyrwyddo ac annog cyfoedion i gofrestru i bleidleisio ar gyfer yr etholiadau lleol diweddar. Rhannwyd y fideo hwn yn eang, gan gynnwys ar orsafoedd radio cenedlaethol. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan yn Rhwydwaith Hawliau Plant Abertawe wedi pennu pum dangosydd perfformiad i esbonio sut beth allai 'gwireddu hawliau' fod, ac mae hyn yn ffurfio rhan o ymgynghoriad Dinas Hawliau Dynol yr awdurdod lleol.

Ar draws yr awdurdod lleol, mae plant a phobl ifanc yn elwa ar gyfleoedd defnyddiol i ddatblygu agweddau ac ymddygiad iach a diogel. Cymerodd dysgwyr a rhieni ran yn rhaglenni difyr Abertawe, sef 'Haf o Hwyl' a 'Gaeaf Llawn Lles', a helpodd plant i wella eu medrau cymdeithasol a'u hyder, a chryfhau ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ailadrodd y mentrau hyn, ac ehangu arnynt, yn 2022.

## Gwasanaethau addysg

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo ysgolion a darparwyr i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018?**

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd effeithiol wrth ddiwygio'i strategaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i gynnwys Rhaglen Trawsnewid ADY Abertawe. Mae'r rhaglen yn cynnwys cymorth buddiol i ysgolion a darparwyr eraill i helpu bodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Caiff y Rhaglen Trawsnewid ADY ei goruchwylio gan y Bwrdd Strategol ADY sy'n monitro cynnydd yn drylwyr.

Comisiynodd yr awdurdod lleol adolygiad cymheiriaid o'i strategaeth ADY ym mis Ionawr 2020. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, cafodd y cynllun trawsnewid ADY ei ddiwygio a'i gryfhau, ac mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da i gyflawni'r camau a nodwyd o fewn y cynllun. Mae trefniadau sicrhau ansawdd trylwyr yr awdurdod wedi helpu swyddogion i nodi'n glir ei gryfderau a meysydd i'w datblygu. Ceir ymrwymiad cryf gan arweinydd ac aelodau etholedig y cyngor i weithredu newidiadau strategol pwysig er mwyn cefnogi cynnydd. Er enghraifft, cymeradwyon nhw ailstrwythuro'r gwasanaeth ac aildrefnu cyfrifoldebau er mwyn cynyddu capasiti i gefnogi ADY.

Fel rhan o'r Gwasanaeth ar gyfer Dysgwyr Bregus, mae'r Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (ALNIT) yn darparu amrywiaeth eang o gymorth i ysgolion a darparwyr. Nod allweddol y tîm yw gosod disgyblion wrth wraidd ei holl benderfyniadau. Mae aelodau'r tîm yn gweithio'n gynhyrchiol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid fel Fforwm Rhieni Gofalwyr Abertawe i feithrin gallu a helpu sicrhau gwelliannau tymor hir ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Mae penodi cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar (CydADYBC) yr awdurdod lleol wedi cryfhau cymorth ar gyfer staff ar draws lleoliadau gofal plant, ac mae hyn yn sicrhau mwy o degwch mewn darpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae perthnasoedd cryf rhwng y CydADYBC a Thîm Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar, ac mae hyn wedi helpu gwella ansawdd y cymorth ar gyfer darparwyr y blynyddoedd cynnar ar draws yr awdurdod.

Mae'r gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol yn briodol. Er enghraifft, ceir trafodaethau cynllunio rheolaidd ar lefel strategol a gweithredol gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) i sicrhau bod cynnig y bwrdd iechyd yn berthnasol i ddiwallu anghenion disgyblion Abertawe.

Ceir rolau a chyfrifoldebau clir o fewn yr ALNIT. Mae'r rhain yn cynnwys cydlynwyr dynodedig (DESCo) a gweithwyr achos sy'n hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni. Mae eu gwaith yn fuddiol o ran cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ffocws brwd ar weithio mewn partneriaeth â theuluoedd ar y cyd i gytuno ar y ddarpariaeth orau ar gyfer dysgwyr, ond mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen datblygu hyn ymhellach. Yn gyffredinol, mae'r awdurdod lleol yn ymateb i anghydfodau ac apeliadau mewn modd amserol. Bu gostyngiad mewn apeliadau tribiwnlys dros gyfnod o ganlyniad i gyflwyno'r tîm gweithwyr achos ADY a'r DESCo, sydd wedi cynorthwyo teuluoedd yn dda.

Mae gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) arweiniol ar gyfer pob clwstwr rôl hanfodol mewn cyflawni'r camau gweithredu o fewn y cynllun

trawsnewid. Maent yn rhannu gwybodaeth, yn cyflwyno hyfforddiant ac yn nodi'r camau nesaf ar gyfer cymorth gan swyddogion ac arbenigwyr. Mae hyn yn helpu sicrhau bod cymorth parhaus gan yr awdurdod lleol yn cael ei deilwra i anghenion penodol clystyrau ac ysgolion unigol. Yn ychwanegol, mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol arweiniol y clwstwr yn nodi arfer dda i'w rhannu o fewn y clystyrau eraill, ac ar eu traws, ac yn hwyluso cymorth o ysgol i ysgol lle mae angen.

Ceir rhaglen anghenion dysgu ychwanegol gynhwysfawr a sefydledig o ddysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion. Er enghraifft, cwblhaodd tua 70 o Gydlynwyr ADY gymhwyster achredig Lefel 7 mewn asesu ac mewn dehongli canlyniadau (Tystysgrif Cymhwysedd mewn Profi Addysgol). Ceir cyfarfodydd cymedroli defnyddiol ar gyfer Cydlynwyr ADY ysgolion i sicrhau ansawdd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) ac mae Cydlynwyr ADY clwstwr yn cynnal cyfarfodydd cymedroli rheolaidd hefyd i sicrhau arferion cyson.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn gofyn i bob ysgol a lleoliad gynnig darpariaeth gyffredinol, briodol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Mae swyddogion yn mynegi eu disgwyliadau'n glir i ysgolion ac yn darparu hyfforddiant a chymorth pwrpasol ar gyfer staff. Maent wedi creu adnoddau defnyddiol ar gyfer ysgolion i gefnogi'r gwaith hwn, er enghraifft Pecyn Cymorth y Blynyddoedd Cynnar, a'r Llawlyfr Cynhwysiant. Mae cydweithio effeithiol gyda chynghorwyr gwella ysgolion a swyddogion ALNIT yn cynorthwyo ysgolion i ddeall eu cyfrifoldeb i gynnig darpariaeth gyffredinol, addas. Mae'r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu meithrin capasiti a gwydnwch gwasanaeth trwy ddatblygu rolau ymarferwyr allweddol, fel creu hyrwyddwyr cyfathrebu cymdeithasol ym mhob ysgol.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen symleiddio a gwella ansawdd rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion, rhieni a staff proffesiynol. Gyda'i gilydd, mae staff ysgolion a swyddogion wedi datblygu a chyflwyno offeryn platfform digidol buddiol, sy'n cefnogi prosesau asesu ac adolygu statudol sy'n ofynnol ar lefel ysgol ac awdurdod, fel ei gilydd. Mae'r system yn darparu mynediad uniongyrchol at wybodaeth berthnasol yn y cynllun datblygu unigol ar gyfer yr holl ysgolion, rhieni a staff proffesiynol eraill.

Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei ddarpariaeth cyfleusterau addysgu arbenigol fel rhan o'r strategaeth ADY gyffredinol. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys ystyried yr angen i gynyddu cymorth arbenigol cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol wrthi'n datblygu ei gymorth a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16, gan gynnwys y rhai mewn colegau addysg bellach.

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi ysgolion i wella?

Ceir diwylliant hunanwella agored a chynhyrchiol ymhlith ysgolion yn Abertawe, sy'n cael ei hyrwyddo a'i gefnogi gan yr awdurdod lleol. Mae'r awdurdod yn ymddiried yn arweinwyr ysgolion ac fe geir ymagwedd gydweithredol at gefnogi ysgolion i wella, datblygu ac arloesi.

Mae ffocws cryf iawn yn Abertawe ar ddatblygu arweinwyr ysgol effeithiol ar bob lefel, gydag ysgolion eu hunain yn ganolog i'r ymagwedd hon, wedi'i ategu gan ddysgu proffesiynol allanol. Yn ystod y tair blynedd cyn y pandemig, barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth dda neu ragorol yn y rhan fwyaf o ysgolion a arolygwyd

yn Abertawe, sy'n broffil gwell na mewn unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Yn ogystal â defnyddio rhaglenni cenedlaethol datblygu arweinyddiaeth yn effeithiol, mae'r awdurdod lleol yn comisiynu a chefnogi gwaith ychwanegol i ddatblygu darpar arweinwyr, arweinwyr newydd ac arweinwyr profiadol ar bob lefel. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi cefnogi prosiect sy'n galluogi darpar ddirprwy benaethiaid i gyfnewid ysgolion am flwyddyn, ac ennill profiad gwerthfawr mewn ysgol mewn cyd-destun hynod wahanol. Mae gan yr awdurdod ymagwedd ragweithiol ac effeithiol at fynd i'r afael â heriau hanesyddol wrth recriwtio uwch arweinwyr mewn ysgolion Catholig Rufeinig. Defnyddir strategaethau mentora a hyfforddi cymheiriaid yn effeithiol gydag uwch arweinwyr newydd a phrofiadol mewn ysgolion.

Yn ystod pandemig COVID-19, darparodd yr awdurdod lleol gymorth ymatebol a gwerthfawr i ysgolion, trwy ei wasanaethau addysg a'i wasanaethau corfforaethol ehangach, gan gynnwys trwy gyngor gan swyddogion iechyd a diogelwch.

Mae gan yr awdurdod ffocws cryf ar ddatblygu athrawon, a cheir enghreifftiau da o ddysgu proffesiynol wedi'i lywio gan ymchwil ac wedi'i seilio ar ymholi ar draws ysgolion. Mae rhwydweithiau ysgolion amrywiol yn darparu ffynhonnell gymorth gyfoethog ar gyfer ymarferwyr i'w galluogi i rannu arfer arloesol ac effeithiol. Roedd y proffil deilliannau arolygu ar gyfer ansawdd yr addysgu yn well yn Abertawe na mewn unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru yn y tair blynedd cyn y pandemig. I ymateb i adborth gan benaethiaid am bryderon am fedrau disgyblion ar ôl y pandemig, secondiodd yr awdurdod lleol ddau ymarferwr llwyddiannus o ysgolion i ddarparu cymorth ychwanegol ar lythrennedd a rhifedd eleni. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol wrthi'n monitro effeithiolrwydd y cymorth ychwanegol hwn.

Er mis Ebrill 2022, mae ysgolion yn Abertawe wedi cael cymorth i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith trwy wasanaeth partneriaeth rhanbarthol newydd yr awdurdod lleol, sef 'Partneriaeth' gyda Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Disodlodd y gwasanaeth hwn 'ERW', a oedd yn bartneriaeth â grŵp ehangach o awdurdodau lleol yn ne orllewin Cymru. Nid oedd ERW yn diwallu anghenion ysgolion Abertawe yn ddigon da, ac mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod Partneriaeth yn darparu gwasanaeth mwy effeithiol i ysgolion. Mae arwyddion cynnar fod Partneriaeth yn darparu cymorth sy'n gweddu'n well i anghenion ysgolion yn Abertawe.

Er bod cydweithio cryf rhwng ysgolion ar gyfer darpariaeth ôl-16, mae graddau'r cydweithio sy'n cynnwys ysgolion eraill gyda dosbarthiadau chweched a darparwyr eraill yn yr ardal wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r cynnig cwricwlwm sydd ar gael i ddysgwyr yn fwy cyfyngedig nag yr arferai fod. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi dechrau gweithio gydag ysgolion a darparwyr eraill ar strategaeth newydd, sy'n anelu at wella'r cynnig i ddysgwyr.

Mae'r awdurdod lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda. Mae swyddogion ar draws gwasanaethau yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion cymorth ysgolion, ac fe gaiff y rhain eu coladu ar system fyw y caiff uwch arweinwyr, yr holl reolwyr gwasanaethau allweddol a chynghorwyr gwella ysgolion fynediad ati. Mae'r wybodaeth hon yn cwmpasu ystod eang o feysydd y gallai ysgolion fod angen cymorth â nhw, fel gwybodaeth gyfreithiol, adnoddau dynol, llywodraethu, cyllid, adeiladau, iechyd a diogelwch, diogelu, anghenion dysgu ychwanegol, grwpiau

penodol o ddysgwyr, gofal plant ac ymddygiad, yn ogystal â gwybodaeth gan gynghorwyr gwella ysgolion yr awdurdod.

Trafodir gwybodaeth am broblemau ysgolion a pha fath o gymorth sydd ei angen arnynt rhwng arweinwyr gwasanaethau mewn cyfarfodydd, ac fe gaiff camau gweithredu eu cytuno a'u cofnodi'n ofalus, gydag unigolyn arweiniol dynodedig a graddfa amser glir. Caiff y camau gweithredu hyn eu monitro'n dynn, a'u haddasu yn ôl yr angen. Caiff ysgolion eu herio'n briodol, a bydd materion fel arfer yn cael eu datrys yn gyflym.

Pan fydd ysgol yn peri pryder oherwydd graddfa problem neu nifer y gwahanol broblemau ar yr un pryd, mae'r awdurdod lleol yn cydlynu a monitro cymorth teilwredig a dwys yn dda iawn, gan weithio mewn partneriaeth agos ag arweinwyr yr ysgol. O ganlyniad, mae'r nifer fach iawn o ysgolion yn Abertawe sydd wedi peri pryder yn y pum mlynedd ddiwethaf wedi gwneud cynnydd cryf a chyflym.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi amcan lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd?**

Mae Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Abertawe yn amlinellu gweledigaeth glir ynghyd â phedwar amcan priodol i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y ddinas. Mae cyd-bwyllgor y BGC yn darparu strwythur llywodraethu addas i gefnogi gwaith yr awdurdod lleol ac amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae hyn yn helpu sicrhau dull mwy integredig i weddu gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl Abertawe.

Mae amcan un y cynllun lles yn canolbwyntio ar sicrhau bod plant yn cael 'y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallan nhw fod'. Mae gwaith yr awdurdod lleol yn cyd-fynd yn dda â'r amcan hwn, sy'n cynnwys sicrhau bod rhieni a theuluoedd yn cael cymorth i'w paratoi'n dda ar gyfer genedigaeth a phlentyndod cynnar, gan helpu plant i ddatblygu i'w llawn botensial a'u cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae'r integreiddio ac ansawdd y gwasanaethau ar draws yr awdurdod lleol, ynghyd â'u hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), yn cefnogi'r amcan hwn yn dda.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ystod eang o arbenigedd a gwasanaethau i gydlynu gwaith darparwyr y blynyddoedd cynnar i helpu sicrhau darpariaeth a chymorth da i blant a'u teuluoedd. Mae swyddogion yn defnyddio gwybodaeth a data yn effeithiol o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys yr asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a Digonolrwydd Chwarae i nodi angen. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i gynllunio'n strategol i ddarparu cymorth ac ymyrraeth addas mewn ardaloedd ledled y ddinas, er enghraifft trwy gomisiynu darpariaeth Dechrau'n Deg a chymorth allymestyn.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau Dechrau'n Deg yr awdurdod lleol wedi eu lleoli mewn ysgolion, ac fe gaiff llawer ohonynt eu rheoli'n uniongyrchol gan benaethiaid. Mae hyn yn helpu ysgolion i ddatblygu cysylltiadau cryf gyda phlant a'u teuluoedd o'r cychwyn. Yn y lleoliadau Dechrau'n Deg hyn, mae swyddogion o'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn gweithio'n dda gyda staff proffesiynol

eraill, fel ymwelwyr iechyd, i ddarparu ymagwedd gyfannol at gynorthwyo plant a theuluoedd o oedran cynnar. Er enghraifft, maent yn gwerthuso anghenion teuluoedd trwy fframwaith Continwwm Angen cynhwysfawr i gefnogi a grymuso teuluoedd yn briodol. Er eu bod megis dechrau cael eu datblygu, mae sefydlu pum Hyb Cymorth Cynnar ledled y ddinas wedi helpu dod â gwasanaethau allweddol at ei gilydd yn fwy effeithiol i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae argaeledd lleoliadau a gwasanaethau addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig.

Mae swyddogion Cymorth a Chynnwys ADY y Blynyddoedd Cynnar yn yr awdurdod lleol yn cefnogi gwaith arweinwyr ac ymarferwyr yn dda mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg, darparwyr gofal dydd a gwarchodwyr plant preifat. Yn ychwanegol, maent yn gweithio'n adeiladol ochr yn ochr â staff proffesiynol allweddol fel y Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd a'r Gwasanaeth Lleferydd ac Iaith o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddarparu cymorth ar gyfer plant a'u teuluoedd. Mae hyn wedi eu galluogi i gyd-greu arweiniad buddiol a chyd-gyflwyno hyfforddiant ar ystod o destunau, fel hyfforddiant cymorth gweledol.

Yn fwy diweddar, mae'r tîm wedi addasu ei raglen i annog mwy o warchodwyr plant i fynychu'r digwyddiadau hyfforddi hyn trwy ddarparu slotiau amser gyda'r nos ac ar benwythnosau i weddu i'w hanghenion yn well. Hefyd, maent wedi darparu cymorth a hyfforddiant gwerthfawr ar destunau fel y Cod ADY newydd ac asesu medrau iaith cynnar plant. Mae'r cymorth uniongyrchol hwn, ynghyd â chyflwyno gwasanaeth ymgynghori dynodedig dros y ffôn ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a'r gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a Therapïau, yn helpu datblygu dealltwriaeth gwarchodwyr plant o ADY. Hefyd, mae'n eu helpu i gynorthwyo teuluoedd sy'n dymuno manteisio ar gymorth ar gyfer eu plant.

Mae Tîm Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar yn darparu cymorth, cyngor a datblygiad proffesiynol defnyddiol ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr mewn amrywiaeth o leoliadau'r blynyddoedd cynnar. Maent yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr mewn lleoliadau Dechrau'n Deg a darparwyr eraill i wella ansawdd y ddarpariaeth a sicrhau cysondeb ar draws darparwyr y blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, mae Athro Tîm Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar a swyddogion eraill wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i gyflwyno offeryn sicrhau ansawdd ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr i werthuso effaith y newidiadau i'w darpariaeth dros gyfnod ar ôl cael cymorth gan yr awdurdod lleol a phartneriaid y brifysgol. Yn ychwanegol, mae Tîm Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar wedi gweithio'n bwrpasol gydag arweinwyr ac ymarferwyr i sicrhau cyfnod pontio esmwyth i blant rhwng gwahanol leoliadau neu pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol yn dair oed. Mae hyn yn helpu hyrwyddo parhad gwell yn eu dysgu a'u gofal ar gyfer plant, yn enwedig y rhai y cydnabuwyd eu bod yn fregus neu'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Un o nodweddion nodedig gwaith yr awdurdod lleol i fodloni amcan un Cynllun Lles y BGC yw gwaith Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (Tîm Braenaru), a grëwyd yn 2019. Mae Cyngor Abertawe, ynghyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, wedi ffurfio dull rhanbarthol ledled Bae Abertawe. Mae hyn yn helpu integreiddio gwasanaethau i gefnogi anghenion plant a theuluoedd hyd at saith oed. Hefyd, mae'r tîm yn cydnabod pwysigrwydd gwerthuso anghenion cymunedau yn barhaus, yn enwedig

wrth iddynt gydnabod effaith pandemig COVID-19 ar deuluoedd a phlant. Mae prif gynghorydd gwella ysgolion yr awdurdod lleol yn rhan o'r grŵp rheoli ar gyfer y tîm hwn. Mae hyn yn helpu hyrwyddo integreiddio gwasanaethau yn agos, gan gynnwys iechyd, addysg, gofal plant a chwarae, yn ogystal â chymorth i deuluoedd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar arferion o fewn lleoliadau a darparwyr eraill, sy'n cefnogi datblygiad plant yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi elwa ar hyfforddiant llythrennedd corfforol i helpu datblygu eu dealltwriaeth a'u hyder mewn cefnogi datblygiad a medrau corfforol cynnar plant.

**Pa mor effeithiol yw'r cymorth ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, a darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol?**

Mae gan yr awdurdod lleol ymrwymiad clir i 'wneud pethau'n gywir ar gyfer pob plentyn' ac mae pob plentyn yn bwysig. Mae uwch swyddogion wedi ymrwymo i weithio gydag ysgolion i wella cymorth ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio, a sicrhau bod eu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn diwallu anghenion y dysgwyr bregus hyn yn llwyddiannus. Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi cyflwyno datganiad polisi ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol, sy'n amlinellu egwyddorion a nodau'r awdurdod lleol ar gyfer y ddarpariaeth hon.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod manteision darparu cymorth ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg cyn gynted ag y bo modd yn eu haddysg. Mae ysgolion yn dechrau defnyddio'r Proffil Asesu Bregusrwydd (PAB) i nodi disgyblion sy'n wynebu risg bosibl o ymddieithrio o oedran cynnar. Mae'r awdurdod lleol yn casglu data o'r PAB ac yn ei ddefnyddio'n dda i helpu darparu cymorth personoledig ar gyfer disgyblion unigol sydd fwyaf mewn perygl.

Ceir gweithio amlasiantaethol cryf ar draws yr awdurdod i gynorthwyo disgyblion bregus a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cymorth buddiol gan yr Hybiau Cymorth Cynnar a'r Gwasanaeth Lles Addysg. Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael cymorth gan y tîm cymorth ymddygiad yn dangos ymgysylltiad gwell yn yr ysgol dros gyfnod.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r broses symudiadau rheoledig yn dda i gefnogi disgyblion a allai elwa ar newid amgylchedd ysgol. Mae'r tîm cynhwysiant yn goruchwylio'r broses, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r trefniadau. Mae hon yn strategaeth hynod lwyddiannus, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y bu'n rhaid iddynt symud i ysgol arall naill ai'n ymgynefino'n dda yn eu lleoliadau newydd neu'n ailintegreiddio'n llwyddiannus yn eu hysgol wreiddiol.

Mae tîm cynhwysiant yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddefnyddio cynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau) buddiol ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae swyddogion yn rhoi cyngor defnyddiol i ysgolion ar ddefnyddio amserlenni llai fel rhan o gynllun pan fyddai'r disgybl yn elwa orau ar hyn. Maent yn monitro pa mor rheolaidd y mae ysgolion yn adolygu cynlluniau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion parhaus y disgyblion hyn, ac mae camau gweithredu yn effeithiol o ran eu helpu i ymgysylltu ag addysg amser llawn o'r newydd.

Gall staff mewn ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion (UCD) fanteisio ar ystod eang o gyfleoedd hyfforddi i gefnogi eu gwaith gyda disgyblion sydd mewn perygl o

ymddieithrio. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o hyfforddiant gan dîm cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol, sesiynau dan arweiniad seicolegwyr addysg a chyfleoedd i ennill cymwysterau ffurfiol, er enghraifft mewn arferion wedi'u llywio gan drawma.

Mae'r awdurdod lleol yn datganoli cyllid i'r holl ysgolion uwchradd i'w helpu i ddarparu cymorth cymdeithasol ac emosiynol teilwredig ar gyfer eu disgyblion. Maent yn darparu ystod eang o gymorth ac ymyriadau i ddiwallu anghenion eu disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae prosiect Cynnydd yn fenter hynod lwyddiannus, yn gweithio gyda disgyblion sydd mewn perygl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae gwaith a wnaeth ysgolion gan ddefnyddio cyllid o'r prosiect wedi cael effaith sylweddol ar sicrhau bod nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol wedi bod yn gyson isel dros gyfnod. Mae pob ysgol uwchradd a'r UCD yn elwa ar anogwyr cymorth dysgu, a ariennir trwy'r prosiect hwn, sy'n helpu dileu'r rhwystro i bobl ifanc rhag cyflawni yn yr ysgol. Er enghraifft, trefnodd gweithwyr Cynnydd i ddisgyblion a oedd wedi ymddieithrio ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 gymryd rhan mewn cwrs tirlunio a garddwriaethol mewn coleg lleol. O ganlyniad, magodd llawer o'r disgyblion hyn hyder i ymgeisio am leoliadau mewn coleg neu symud i gyflogaeth.

Mae gan yr awdurdod lleol brosesau cryf ar gyfer cadw mewn cysylltiad â disgyblion bregus sydd wedi gadael yr ysgol, yn enwedig dros gyfnodau'r haf a'r hydref yn union wedi iddynt orffen yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda choleg a darparwr hyfforddiant lleol i alluogi disgyblion targedig i fynychu ysgolion haf er mwyn cynnal parhad mewn mynychu addysg. Mae hyn wedi helpu sicrhau bod yr awdurdod yn gwybod beth yw cyrchfan y rhai sy'n gadael ei ysgolion bob blwyddyn hefyd. Mae hyn yn gryfder arbennig.

Yn 2017, archwiliodd yr awdurdod lleol ei wasanaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Roedd hyn yn cynnwys lleihau'r capasiti yn yr UCD yn sylweddol i gydnabod datganoli cyllid yn gynyddol, ac egluro cyfrifoldeb ysgolion uwchradd prif ffrwd i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r broses i ysgolion gyfeirio plentyn at y panel addysg heblaw yn yr ysgol yn glir. Mae'r panel, gyda chynrychiolaeth amlasiantaethol sy'n cynnwys penaethiaid, cynrychiolwyr o'r gwasanaeth lles addysg a'r Hybiau Cymorth Cynnar, yn ystyried pob achos ac yn cytuno ar lwybr ar gyfer pob disgybl. Gallai hyn gynnwys lleoliad amser llawn neu ran-amser yn yr UCD neu argymhellion i helpu'r plentyn i ymgysylltu'n fwy llwyddiannus mewn lleoliad prif ffrwd.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adeilad newydd ar gyfer eu UCD. Mae Maes Derw yn darparu amgylchedd ysgol fodern wedi'i hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer dysgwyr o bob oedran. Mae uwch swyddogion yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i ddarpariaeth UCD bresennol er mwyn cyflwyno model mwy hyblyg sydd â'r nod o ddiwallu anghenion y disgyblion mwyaf bregus yn fwy effeithiol.

Mae staff yng ngwasanaeth tiwtora gartref yr awdurdod lleol yn cynorthwyo disgyblion yn dda. Fel arfer, mae'r rhain yn ddisgyblion nad ydynt yn gallu mynychu

eu hysgol brif ffrwd, er enghraifft am resymau meddygol neu os ydynt wedi cael eu gwahardd o'r ysgol ac yn aros am ddarpariaeth amgen. Mae'r cymorth yn gymorth tymor byr yn bennaf, ac mae llawer o ddisgyblion yn ailintegreiddio i addysg brif ffrwd yn llwyddiannus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae arweinydd y cyngor a'r prif weithredwr dros dro wedi amlinellu'n glir ar y cyd eu dyhead cryf ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yn Abertawe. Mae aelodau etholedig, gan gynnwys yr aelod cabinet a chadeirydd y panel craffu ar addysg, yn hyrwyddo'r weledigaeth ar draws y sir yn bwrpasol, sef 'wedi ymrwymo i addysg ragorol i bawb'. Mae'r adduned uchelgeisiol hon wedi'i hategu gan bolisïau a chynlluniau gweithredu tra ystyriol.

Mae'r cyfarwyddwr addysg yn mynegi ac yn rhannu ei gweledigaeth ar gyfer addysg yn hynod effeithiol. Ers ymgymryd â'i rôl, mae hi wedi mynd ati i gyflawni'r weledigaeth hon gyda phenderfynoldeb ac ysgogiad. Mae wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith y gyfarwyddiaeth ac wedi ailstrwythuro'r tîm addysg i ychwanegu capasiti a rhannu rolau a chyfrifoldebau arwain ar gyfer gwasanaethau addysg yn deg. Ceir arweinyddiaeth ddosbarthedig gref, ac mae arweinwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer swyddogion, ysgolion, darparwyr eraill a phartneriaid.

Mae uwch dîm arweinyddiaeth y gyfarwyddiaeth addysg yn cyflawni eu rolau yn llwyddiannus. Mae'r tri phennaeth gwasanaeth yn deall eu meysydd cyfrifoldeb yn dda. Maent yn cynllunio gwaith eu timau yn llwyddiannus i ddiwallu anghenion lleol yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r Tîm Dysgwyr Bregus yn cydnabod bod angen adolygu'r cyfleusterau addysgu arbenigol ledled y ddinas fel rhan o'r gwaith trawsnewid ADY. Mae pob un o'r tri thîm yn y gyfarwyddiaeth yn gweithio gyda'i gilydd ar feysydd pwysig lle mae amcanion cyffredin. Er enghraifft, mae'r Tîm Cynllunio ac Adnoddau yn arwain ar brosiectau trefniadaeth ysgolion, gyda chymorth gan gydweithwyr o dimau eraill y gyfarwyddiaeth. Trwy systemau rheolaeth llinell, mae arweinwyr yn darparu cymorth a her benodol, sy'n canolbwyntio ar gyfraniad swyddogion at flaenoriaethau addysg a'u hanghenion proffesiynol unigol.

Mae uwch arweinwyr wedi cymryd rhan yn llawn mewn ffurfio'r gwasanaeth rhanbarthol newydd a sefydlwyd yn ddiweddar, sef 'Partneriaeth'. Maent wedi sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i strwythuro i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau presennol ysgolion yn yr awdurdod lleol, a'i fod yn ategu gwaith effeithiol tîm cyflawniad a phartneriaeth yr awdurdod lleol.

Mae'r gyfarwyddiaeth wedi meithrin perthnasoedd hynod gadarnhaol a chynhyrchiol gyda phenaethiaid a rhanddeiliaid eraill. Ceir ymdeimlad gwirioneddol o berchnogaeth ac atebolrwydd ar y cyd am y blaenoriaethau allweddol mewn addysg, ac mae hon yn nodwedd nodedig. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu perthnasoedd gweithio agos gydag ysgolion dros gyfnod, ac fe gafodd y rhain eu cynnal a'u datblygu ymhellach tra roedd cyfyngiadau ar waith yn ystod y pandemig. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y cymorth ar gyfer ysgolion gan y tîm addysg dderbyniad da iawn.

Mae swyddogion o'r gyfarwyddiaeth addysg yn cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol a chyfarwyddiaethau eraill, a gyda sefydliadau allanol, gan gynnwys y bartneriaeth medrau rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Un o ddeilliannau allweddol y cydweithio hwn fu datblygu Partneriaeth Sgiliau Abertawe, sy'n alinio blaenoriaethau'r awdurdod lleol â dyheadau rhanbarthol. Trwy ymrwymiad ar y cyd i'r agenda medrau, mae'r bartneriaeth wedi cytuno ar nodau cyffredin ac wedi dechrau gyrru gwaith yn ei flaen i arfogi plant a phobl ifanc â medrau defnyddiol sy'n gweddu i gyfleoedd cyflogaeth posibl. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi trefnu cymorth a hyfforddiant mewn datblygu digidol o bartneriaid addysg bellach ac addysg uwch ar gyfer staff ysgolion. Mae hyn wedi helpu gwella'r cynnig dysgu cyfunol ar gyfer dysgwyr. Mae'r bartneriaeth wedi cefnogi datblygu gwefan Fy Newis, sy'n fuddiol ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno dilyn llwybr academaidd mewn ysgol yn Abertawe. Hyd yma, nid yw Fy Newis yn galluogi dysgwyr i ystyried ystod lawn y cyfleoedd ôl-16 a gynigir ar draws y bartneriaeth. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran cynllunio i gofnodi safbwyntiau dysgwyr fel rhan o'r cynllunio ar gyfer darpariaeth ôl-16.

Mae ffocws cryf ar leihau effaith tlodi ar draws holl gyfarwyddiaethau'r cyngor. Adlewyrchir y flaenoriaeth hon yng ngwaith yr holl dimau yn y gyfarwyddiaeth addysg. Trwy eu cyfranogiad yn fforwm tlodi'r awdurdod, mae swyddogion yn y tîm addysg wedi gallu ystyried sut orau i gefnogi ysgolion. Er enghraifft, mae swyddogion yn rhannu gwybodaeth am ddefnyddio undebau credyd neu sut i ddechrau 'Bocs Bwyd Mawr' i helpu mynd i'r afael â thlodi bwyd, mynd i'r afael â gwastraff bwyd a dysgu am fanteision tyfu a choginio bwyd.

Dros gyfnod, mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu capasiti yn raddol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae agweddau ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 Abertawe a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ddyheadol, a'u nod yw mynd i'r afael â rhai o heriau'r awdurdod. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac ysgolion a gynhelir yr un mor hygyrch ledled y sir ar hyn o bryd.

Mae arweinwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau a meysydd i'w datblygu'r gyfarwyddiaeth addysg. Mae swyddogion yn gwneud eu gwaith mewn diwylliant o fyfyrio a gwelliant parhaus. Mae hyn yn golygu eu bod yn nodi agweddau ar waith y gyfarwyddiaeth sydd angen eu gwella yn gyflym, ac yn rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain mewn modd amserol.

Mae cynllun corfforaethol yr awdurdod yn dangos ei ymrwymiad i wella addysg yn dda. Un o'i chwe blaenoriaeth lles yw gwella addysg a medrau gyda'r nod o sicrhau bod pawb yn Abertawe yn ennill y medrau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd. Mae swyddogion yn glir ynglŷn â'r cyswllt rhwng y cynlluniau sy'n arwain gwaith y gyfarwyddiaeth, a gwahanol ddibenion y rhain. Er enghraifft, mae cynllun Abertawe 2023 yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion i ddeall sut mae uchelgeisiau'r awdurdod lleol a'r gyfarwyddiaeth ar gyfer addysg yn cysylltu ag ysgolion ar lefel weithredol. Mae'r cynllun adfer corfforaethol ar ôl y pandemig wedi bod yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod y gyfarwyddiaeth yn cefnogi ysgolion mewn agweddau pwysig ar eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethu lles disgyblion a staff, cynnydd dysgwyr a darparu addysgu o ansawdd uchel a chwricwlwm difyr, wrth iddynt ddychwelyd at ffyrdd mwy arferol o weithio ar ôl pandemig COVID-19. Mae cynlluniau gwasanaethau a thimau yn darparu amserlenni clir a realistig ar gyfer

gwaith swyddogion ar draws y gyfarwyddiaeth. Nid yw nifer y cynlluniau y mae'r gyfarwyddiaeth yn eu darparu ar hyn o bryd yn amharu ar effeithiolrwydd y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae uwch arweinwyr yn cydnabod manteision symleiddio'r system gynllunio yn y dyfodol agos i sicrhau cysylltiadau cliriach o'r cynllun corfforaethol trwodd i gyflwyno gwasanaethau.

Caiff prosesau monitro a gwerthuso eu hymgorffori'n dda ar lefel gorfforaethol a lefel cyfarwyddiaeth, ac mae ymagwedd gyson at y prosesau hyn ar draws y cyngor. Mae systemau rheoli perfformiad yn gryf, ac mae swyddogion yn defnyddio ystod dda o ddangosyddion perfformiad buddiol i fesur cynnydd y gyfarwyddiaeth. Mae swyddogion yn darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd i uwch arweinwyr ac aelodau etholedig. Ceir cysylltiadau clir rhwng nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella a'r cynlluniau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.

Mae'r cyfarwyddwr addysg a'i thîm wedi myfyrio'n dda ar eu gwaith gydag ysgolion yn ystod cyfnod y pandemig, ac wedi nodi agweddau ar effaith y gwaith hwn y maent yn awyddus i'w cynnal ac adeiladu arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys y prosesau monitro gwell ar gyfer disgyblion bregus, y berthynas weithio agosach gyda'r gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a manteision gwrando ar ystod eang o randdeiliaid.

Mae swyddogion yn datblygu eu dulliau o gasglu ystod ehangach o safbwyntiau am eu gwaith a'u blaenoriaethau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r adolygiad presennol o ddarpariaeth yy unedau addysgu arbenigol yn ystyried barn rhieni a gofalwyr, arweinwyr ysgolion ac athrawon. Mae swyddogion wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar wella cyfleoedd i ddisgyblion lywio blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth, a dylanwadu arnynt. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu 'maniffesto llais y disgybl' mewn ysgolion uwchradd unigol fel rhagflaenydd i faniffesto ar draws yr awdurdod.

Dros amser, mae swyddogion wedi bod yn llwyddiannus wrth ysgogi gwelliannau a chynnal y rhain yn effeithiol. Er enghraifft, mae gwelliannau yn ansawdd yr arweinyddiaeth yn y gyfarwyddiaeth addysg, nodi ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol a'r ddarpariaeth ar eu cyfer, yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, wedi arwain at ddeilliannau da ar gyfer disgyblion.

Mae aelodau etholedig yn ystyried yn ofalus sut orau i gyflawni eu blaenoriaethau trwy strwythurau democrataidd buddiol, fel y Pwyllgorau Datblygu Polisïau. Mae trefniadau o'r fath yn sicrhau bod ystod eang, drawsbleidiol o aelodau etholedig yn ymgysylltu'n gadarnhaol â datblygu polisi yn gynnar. Mae'r gwaith hwn yn helpu sicrhau bod polisïau'n cael eu deall yn dda a'u perchnogi ar y cyd ar draws portffolios perthnasol, er enghraifft y rhai'n ymwneud â Phartneriaeth Sgiliau Abertawe.

Mae'r Panel Craffu ar Addysg yn ystyried ystod eang o weithgarwch perthnasol. Ceir ffocws cryf ar ddeall sut mae ysgolion yn cefnogi a chyfrannu at gyflawni agenda'r awdurdod lleol ar leihau effaith tlodi. Hefyd, mae ffocws o'r newydd ar fedrau cyflogadwyedd yn gysylltiedig â'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol. Mae'r panel yn ymgysylltu'n dda ag ysgolion, ac yn cynnwys barn disgyblion ac arweinwyr ysgolion, lle bo'n briodol, wrth werthuso eitemau agenda sy'n cael eu dwyn ger eu bron. Rhoddir ystyriaeth briodol i faterion perthnasol a sensitif weithiau, fel cynigion ad-drefnu ysgolion, mewn gweithgarwch craffu cyn gwneud penderfyniadau. Yn

ychwanegol, mae'r panel yn galw gweithgorau buddiol ynghyd i ystyried meysydd perthnasol, fel caffael gan ysgolion.

Mae arweinwyr yn defnyddio trefniadau rheoli perfformiad yr awdurdod yn dda i gytuno amcanion diffiniedig gyda staff, wedi'u cyfuno â dysgu proffesiynol addas. Mae rheolwyr llinell yn olrhain cynnydd staff yn erbyn eu targedau yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn i sicrhau eu bod ar y trywydd iawn i gyflawni deilliannau cytûn. Mae arweinwyr yn ystyried cynllunio dilyniant yn addas ac yn cynnig arweiniad a hyfforddiant priodol i staff sy'n dymuno datblygu eu medrau arwain.

Ceir rhaglen gorfforaethol gynhwysfawr o hyfforddiant gorfodol ar-lein ar gyfer staff, sy'n cynnwys materion pwysig a chyfoes fel diogelu, trais domestig a seiberddiogelwch. Mae rheolwyr llinell yn y gyfarwyddiaeth addysg yn olrhain cwblhau unedau amrywiol yn llwyddiannus yn agos, ac yn sicrhau bod staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r agweddau pwysicaf. Yn unol â gweledigaeth yr awdurdod lleol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae swyddogion yn cynnig cynnwys hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff nad ydynt yn rhugl yn yr iaith.

Mae'r awdurdod lleol wedi meithrin cysylltiadau eang gydag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru i drafod materion a dilyn hynt a helynt datblygiadau mewn addysg. Enghraifft nodedig o hyn yw'r gwaith a wneir mewn partneriaeth ag awdurdod lleol Sir y Fflint i werthuso ansawdd y ddarpariaeth yn nhîm ADY awdurdod lleol Abertawe.

Mae ymgynghorwyr gwella ysgolion yn elwa ar gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol, gan gynnwys sesiynau ar arferion wedi'u harwain gan ymchwil, gan weithio gyda Phrifysgol Abertawe ar brosiectau penodol a rhannu arfer dda. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig rhaglen ymsefydlu fuddiol ar gyfer ymgynghorwyr gwella ysgolion a benodwyd yn ddiweddar, sy'n cynnwys cysgodi staff profiadol eraill a hyfforddiant ar sut i ysgrifennu'n werthusol. Mae arweinwyr o fewn y gwasanaeth hwn yn ennill gwybodaeth broffesiynol werthfawr o gysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithio gydag awdurdod lleol Tower Hamlets i ystyried sut orau i ddefnyddio cyllid i gynorthwyo disgyblion mewn ardaloedd lle mae amddifadedd cymdeithasol, ac ymweld ag ardal Y Basg yn Sbaen i ddeall gwahanol ddulliau o hyrwyddo dwyieithrwydd mewn ysgolion.

Diogelu pobl yw un o chwe blaenoriaeth allweddol Abertawe. Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag niwed yn treiddio trwy waith pob swyddog addysg. Mae ansawdd goruchwyliaeth strategol uwch arweinwyr o ddiogelu ar draws gwasanaethau addysg yn nodwedd nodedig.

Mae'r Bwrdd Llywio Diogelu Corfforaethol yn goruchwylio'r holl waith diogelu ar lefel weithredol. Mae'r grŵp yn cynnwys aelodaeth o ystod eang o wasanaethau o fewn yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol perthnasol. Mae cyfarfodydd yn rheolaidd a chynhyrchiol, ac fe geir camau gweithredu clir a chadarn. Mae'r Bwrdd yn fyfyriol ac yn gwerthuso effaith ei waith yn rheolaidd.

Mae staff addysg yn gweithio ar y cyd ac yn gynhyrchiol gyda chydweithwyr ar draws ystod o wasanaethau eraill trwy grwpiau strategol a gweithredol. Mae'r grwpiau hyn yn cynllunio a gwneud gwaith ar draws ysgolion a darparwyr eraill, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a llesiant plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae gwaith y grŵp strategaeth risg gyd-destunol ar gyfer diogelu o ran plant sydd mewn perygl o fod ar

goll o addysg, mewn perygl o bobl yn camfanteisio arnynt neu mewn perygl o gael eu masnachu (C-MET) yn effeithiol o ran helpu diogelu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl. Trwy waith y grŵp strategol C-MET, mae swyddogion yn nodi tueddiadau, yn cynllunio ymyriadau ac yn gwneud gwaith buddiol arall gydag ysgolion. Mae tîm gweithredol C-MET yn gweithio mewn cydweithrediad agos ag ysgolion i gynorthwyo'r holl ddysgwyr a nodwyd sydd mewn perygl trwy hwyluso mynediad at wasanaethau a chymorth. Hefyd, maent yn darparu gweithwyr ieuenctid dynodedig i ymgysylltu â dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, mewn perygl o bobl yn camfanteisio arnynt ac mewn perygl o ymddieithrio.

Ceir cydweithio cryf rhwng gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau i blant a theuluoedd, er enghraifft trwy waith y gwasanaeth i blant, sef yr Hyb Cymorth Cynnar. O fewn y gwasanaeth hwn, mae'r hyb diogelu integredig, sy'n cynnwys aelodaeth o blith gweithwyr addysg proffesiynol a'r heddlu, yn darparu arweiniad a chymorth buddiol i ysgolion a'r UCD. Fel rhan o'r ffordd integredig hon o weithio, mae swyddog dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu a'r swyddog diogelu addysg yn dadansoddi ansawdd ac addasrwydd yr holl atgyfeiriadau diogelu bob wythnos. Maent yn nodi tueddiadau, cryfderau a diffygion ac yn gweithredu'n gyflym er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sy'n dod i'r amlwg.

Caiff arferion gweithio integredig ar draws gwasanaethau eu hymgorffori'n dda ac mae hon yn nodwedd gref o waith yr awdurdod lleol. Mae swyddogion wedi llunio dogfen arweiniad polisi bwrpasol 'Continwwm Angen' er mwyn symleiddio'r broses amddiffyn a diogelu plant ar gyfer darparwyr. Mae'r arweiniad yn sicrhau bod ysgolion a darparwyr eraill yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r trothwy ar gyfer gwasanaethau ac yn defnyddio iaith gyffredin i ddisgrifio amgylchiadau personol plant a phobl ifanc i bennu ble y gellid diwallu eu hanghenion orau. Hefyd, mae'r arweiniad yn amlinellu beth sy'n bwysig i'r plentyn ym mhob cam o broses amddiffyn neu ddiogelu'r plentyn ac yn egluro disgwyliadau pawb.

Mae cyfathrebu â darparwyr ynghylch materion diogelu yn nodwedd gref o waith yr awdurdod lleol. Mae swyddogion yn llunio cylchlythyrau cynhwysfawr a buddiol ar ddiogelu bob tymor ar gyfer ysgolion a lleoliadau eraill. Ceir trefniadau hyfforddi pwrpasol ar gyfer staff ar y lefelau angenrheidiol, ac mae gan yr awdurdod lleol drefniadau trylwyr i gadw cofnodion ar gyfer hyfforddiant diogelu staff. Mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Trwy ei ddulliau cydlynus ac ataliol a'i ffyrdd cyflym o weithio, sy'n canolbwyntio ar atebion, mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu yn llwyddiannus yn ei holl waith.

Mae'r gyfarwyddiaeth addysg yn ymateb yn gyflym i faterion cenedlaethol, canfyddiadau o ymchwil ac adroddiadau cenedlaethol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi creu cynllun gweithredu pwrpasol i ymateb i adroddiad cenedlaethol 2021 Estyn ar fynychter aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, sef 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon'. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu cadarn i ymateb i'r argymhelliad i awdurdodau lleol wella casglu data gan ysgolion, a chryfhau prosesau i gasglu gwybodaeth uniongyrchol gan ddarparwyr am achosion o fwlio ac aflonyddu yn ôl math a thueddiadau mewn ymddygiad.

Mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys cyllid refeniw ar gyfer ysgolion yn gyffredinol, cyllid

ar gyfer pwysau penodol o ran cyllideb mewn addysg, a buddsoddiad yn seilwaith TGCh ysgolion. Hefyd, mae’r awdurdod wedi blaenoriaethu cyllid cyfalaf i gyflwyno’i raglen ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, sy’n cynnwys ymrwymiad i ariannu Band B y rhaglen heb ofyn am gyfraniad o gyllidebau ysgolion.

Yn ystod cyfnod y pandemig, tanwariwyd cyllideb addysg yr awdurdod yn 2020-2021 ac yn 2021-2022 hefyd, er bod yr awdurdod lleol wedi gorwario yn y tair blwyddyn ariannol flaenorol. Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion unigol gyllideb dros ben cyn y pandemig; swm cyffredinol y gyllideb ysgolion oedd £7.73m ar ddiwedd 2019-2020. Dywed yr awdurdod fod cyllideb gyffredinol ysgolion wedi cynyddu i £28.21m ar ddiwedd 2021-2022, a bod cyllideb dros ben gan yr holl ysgolion yn Abertawe ar ddiwedd 2021-2022. Mae’r cyngor yn gweithio gydag ysgolion i helpu cynllunio ar gyfer defnyddio cyllideb dros ben yn effeithiol. Mae’r Cynllun ar gyfer Cyllido Ysgolion wedi cael ei gymhwyso’n briodol o ran ysgolion oedd â diffyg ariannol mewn blynyddoedd blaenorol. Mae’r Cynllun hwn yn cynnwys gofyniad am geisiadau gan ysgolion i osod cynllun i gyd-fynd â diffyg cyllidebol yn nodi sut bydd y diffyg yn cael ei dalu’n ôl.

Mae’r awdurdod yn gweithio’n dda gydag ysgolion trwy’r Fforwm Cyllideb Ysgolion. Mae’r Fforwm yn ystyried materion ariannol allweddol yn ymwneud ag ysgolion, ac mae niferoedd da yn mynychu cyfarfodydd. Mae’r Fforwm yn ystyried materion perthnasol, gan gynnwys gosod cyllideb flynyddol yr awdurdod, yr adolygiadau parhaus o gyllid yr ysgolion a fformiwlâu cyllido anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal ag adolygiadau o gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau), rhwng yr awdurdod a’r ysgolion. Mae gan yr awdurdod ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth ac, ar y cyfan, mae lefel uchel o ysgolion yn manteisio ar y rhain. Caiff cymorth cryf gan swyddogion cyllid yr awdurdod lleol ei werthfawrogi gan ysgolion hefyd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2022